



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Cwestiynau cyffredin gan gyflogwyr a llofnodwyr

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Chwefror 2024

Diweddariad olaf: 16 Chwefror 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cyfrifoldebau-cyflogwyr-a-sefydliadau-addysg-uwch/employers-and-heis-responsibilities-faqs> am y fersiwn diweddaraf.

## Cwestiynau y mae cyflogwyr a llofnodwyr yn gofyn yn aml:

**Beth sy'n digwydd os yw fy ngweithiwr yn dweud nad oedd unrhyw lofnodwr wedi'u rhestru i ddewis ohonynt ar gyfer cymeradwyaeth?**

Dangos

Os nad oes gan eich sefydliad unrhyw lofnodwyr, gweler: [Sut i ddod yn lofnodwr](#)

Os yw'ch sefydliad wedi sefydlu llofnodwyr ac nad ydynt yn ymddangos pan fo'r gweithiwr yn llenwi eu ffurflen, mae'n debygol eu bod wedi dewis y sefydliad anghywir yn yr adran gyflogaeth o'u ffurflen; er enghraifft, nid yw'r gwasanaeth cymdeithasol yn gyflogwr, 'Cyngor XXX' fyddai'n cyflogi.

Mae'n bwysig i bobl gwblhau eu hadran gyflogaeth yn gywir - y dewis hwn sy'n rhoi gwybod i'r system ba enwau i'w cynnig i bobl ddewis ohonynt fel cymeradwywyr.

Os nad yw eu ffurflen wedi ei chyflwyno, gellir newid yr adran gyflogaeth, a bydd y sgrîn cymeradwyo yn diweddarau i ddangos y rhestr o lofnodwyr.

Os yw'r cais neu'r adnewyddiad wedi ei gyflwyno, ni ellir ei newid a bydd angen i'ch gweithiwr anfon e-bost atom fel y gallwn gywiro'r wybodaeth ar eu cyfer. Wedi inni gyflawni hyn, bydd eu cais am gymeradwyaeth yn dangos yng nghyfrif eu llofnodwr dewisiol.

**Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n derbyn ceisiadau cyflogwyr am bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi yn ein sefydliad bellach?**

Dangos

Mewngofnodwch i'ch cyfrif GCCar-lein ac ewch at 'Fy Sefydliad' cyn clicio ar enw eich gweithle. Bydd sawl opsiwn yn cael eu llwytho i roi gwybodaeth gofrestru i chi am eich gweithwyr.

Os oes gennych chi weithwyr wedi'u rhestru nad ydynt bellach yn gweithio i'ch sefydliad, gallwch ddirwyn eu cofnodion cyflogaeth i ben yn y tab nodiadau atgoffa ddyledus i'ch gweithwyr neu i unigolion cofrestredig. Rydym yn cynghori cyflogwyr i wneud hyn yn rheolaidd i osgoi cyswllt diangen gennym.

**Nodwch**, os oes rhywun wedi cael ei gyflogi gennych yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'n rhaid i ni gysylltu â chi o hyd i gadarnhau nad oes unrhyw faterion addasrwydd i ymarfer hyd at ddiwedd cyflogaeth y person hwnnw gyda'ch sefydliad.

Os oes gennych unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer am bobl cofrestredig, dylech roi gwybod i ni drwy'r adran 'Adrodd pryder addasrwydd i ymarfer' o'ch cyfrif.

## **Beth sy'n digwydd os nad oes gan un o'n gweithwyr DBS neu os nad yw eu dyddiad DBS o fewn y tair blynedd ddiwethaf?**

Dangos

Gallwn brosesu'r cofrestriad os yw'r cyflogwr yn cadarnhau bod gwiriad DBS ar y gweill a'ch bod chi fel cyflogwr yn e-bostio cadarnhad inni unwaith y mae'r gwiriad wedi'i gwblhau.

## **Sut ydw i'n gwybod a yw cais/adnewyddiad fy ngweithiwr wedi bod yn llwyddiannus neu ble yn y broses y mae wedi cyrraedd?**

Dangos

Gall lofnodwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am statws/cynnydd cofrestriad eu gweithwyr yn eu cyfrif GCCar-lein.

Fel llofnodwr, bydd eich cyfrif yn dangos statws cais i chi. I'w wirio, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein, ewch i 'Fy Sefydliad' a dewiswch eich sefydliad gofynnol o'r rhestr, bydd hyn yn llwytho sgrîn gydag ystod o opsiynau.

Un o'r opsiynau hyn yw 'Ymgeiswyr'. Yma, gallwch weld oes rhywun wedi gwneud cais gyda ni a pha mor bell yn y broses y maent wedi cyrraedd.

Os yw'r cais wedi'i gwblhau a bod y cofrestriad wedi'i ganiatau, bydd y person hwnnw'n ymddangos ar y Gofrestr, ond hefyd yn eich cyfrif o dan eich adran 'unigolion cofrestredig'.

Mae yna opsiwn arall o'r enw 'nodiadau atgoffa dyledus i'ch gweithwyr'. Yma, gallwch weld a yw un o'ch gweithwyr angen adnewyddu, a oes ffi neu unrhyw ofyniad cydymffurfio sy'n ddyledus.

## **Beth ddylwn ei wneud os ydych wedi dechrau tynnu un o'm gweithwyr sy'n dal yn cael ei gyflogi gennym o'r Gofrestr?**

Dangos

Os nad yw unigolyn wedi bodloni'r gofynion i adnewyddu neu d~~u~~alu eu ffi f~~l~~ lynyddol, ni fydd eu cofrestriad yn cael ei adnewyddu a byddant yn cael eu tynnu o'r Gofrestr.

Ar ddechrau'r broses o dynnu o'r Gofrestr, rydym yn anfon e-bost at y cyflogwr i ofyn a oes unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer cyn iddynt gael eu dileu.

**Ni allwn gadw rhywun ar y Gofrestr drwy eich gofyniad.** Mae angen i'r person cofrestredig ddychwelyd unrhyw wybodaeth sy'n ddyledus atom a thalu unrhyw ffioedd sy'n weddill er mwyn osgoi cael eu dileu. Y ffordd orau o weithredu yw eu hannog i gysylltu â ni ar unwaith i ddatrys unrhyw faterion sy'n

weddi.

## Sut i fod yn llofnodwr?

Dangos

I ddod yn brif lofnodwr, bydd angen i chi gysylltu â [llofnodwyr@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:llofnodwyr@gofalcymdeithasol.cymru) Gofynnir cwestiynau i chi i sicrhau eich bod yn addas i gyflawni'r rôl hon.

I ddod yn **llofnodwr ychwanegol**, ewch i '[Gwneud cais i Gymeradwyo](#)' yn eich cyfrif GCCarlein.

- Ar ôl eu cyflwyno, bydd y ceisiadau hyn yn ymddangos yn adran Llofnodwyr 'Fy Sefydliad' er mwyn i brif lofnodwr gymeradwyo neu wrthod.
- Rhaid i sefydliad gael prif lofnodwr cymeradwy cyn y gallwn ychwanegu unrhyw lofnodwyr ychwanegol.

**Mae cyfrifon ar CGGarlein yn unigol.** Os ydych wedi cofrestru neu os oes gennych gyfrif eisoes, dylech ddefnyddio'r un cyfrif a mewngofnodi ar gyfer pob rôl a rhyngweithiad â ni.

## Faint o gyfrifon GCCarlein ddylwn i gael?

Dangos

Dim ond **un** cyfrif GCCar-lein ddylai pawb ei gael, boed iddynt yn berson cofrestredig, yn dychwelyd i'r Gofrestr neu os ydynt yn gyflogwr. Dylid cadw'ch holl wybodaeth ar un cyfrif gydag un mewngofnod ac e-bost. Gall ddyblygu cyfrifon arwain at oedi difrifol, felly os gwelwch yn dda, byddwch yn ystyriol wrth greu cyfrifon ar y system.